

❖ GWEDDI AR GYFER TYMOR Y NADOLIG

Arglwydd pob goleuni a gobaith,
 clyw ein gweddi o fawl ac addoliad
 yn nhymor yr Adfent,
 wrth i ni agosáu at yr ŵyl
 sy'n dathlu genedigaeth Iesu.
 Cydnabyddwn y bydd y Nadolig i lawer
 yn adeg o unigedd a gofid creulon,
 pan fydd y tywyll yn dywyllach
 a'r tymheredd rhewllyd yn gafael yn galetach,
 oherwydd nad oes ganddynt gymdeithas i'w rhannu,
 unman i'w alw'n gartref,
 dim gwely i gysgu ynddo
 yn y byd oerllyd hwn.
 Gweddïwn y bydd y Nadolig eleni
 yn gyfnod o ddechrau newydd i'r truenus,
 yn awyrgylch cynhesach i'r sawl sy'n rhynnu
 ac yn ganfyddiad o deulu i'r unig.

**Arglwydd Dduw, tynn ni oll yn agosach atat,
 fel y gallwn fod yn un yng Nghrist.**

Cofiwn y sawl sy'n gymysg ei wedd
 oherwydd y gwrth-ddweud sydd mewn bywyd,
 ac annhegwch y profiadau dynol –
 y cyfoethog a'r tlawd,
 yr iach a'r claf,
 yr abl a'r llai abl,
 y grymus a'r gwan.
 Gweddïwn y bydd y Nadolig eleni
 yn amser i bob person
 ddarganfod yr angen sy'n gyffredin i bawb,
 a gwerthfawrogi digonedd yr adnoddau byd-eang
 a'r ewylllys i rannu'r rhoddion hyn er lles trigolion daear.

**Arglwydd Dduw, tynn ni oll yn agosach atat,
 fel y gallwn fod yn un yng Nghrist.**

Rydym yn ymwybodol o'r sawl sy'n glaf,
 ac yn ddibynnol ar ddarpariaethau meddygol
 i gynnal eu cyrff, eu meddyliau a'u hwyliu,
 gan fethu byw hebddynt.
 Arglwydd, cofiwn am y sawl sy'n camddefnyddio alcohol a chyffuriau
 ac yn methu ymryddhau o hualau eu poen.
 Nefol Dad, clyw ein gweddi dros y sawl sy'n niweidio eu hunain
 a'r sawl sy'n niweidio eraill ac yn methu ymatal.

Gweddïwn y bydd y Nadolig eleni yn amser
 i anadlu awyr iach bryniau Bethlehem,
 i blygu wrth grud yr ymgawdoliad
 ac i ryfeddu wrth weld wyneb Iesu yn disgleirio arnynt
 wên y cariad dwyfol sy'n llawn trugaredd.

**Arglwydd Dduw, tynn ni oll yn agosach atat,
 fel y gallwn fod yn un yng Nghrist.**

Denzil I. John